**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 10 Mawrth 2022 am 10.30am**

**Presennol:**

**Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| David Hopkins | Cyngor Abertawe |
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Ted Latham | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Penfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Stephen Baldwin | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant<br>Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| William Bramble | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Penfro) |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Nicola Pearce | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Phil Ryder | Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |
| Ian Williams | Rheolwr Datblygu Portffolio (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd R S Stewart
Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)
Jon Haswell (S151 Officer (Cyngor Sir Penfro))
David Helliwell
Karen Jones – Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)
Steve Wilks, Prifysgol Abertawe

## 35 Ethol Cadeirydd Dros Dro

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd Emlyn Dole yn Gadeirydd y Cydbwyllgor dros dro.

Y Cynghorydd Emlyn Dole (Cadeirydd) fu'n llywyddu.

## 36 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 37 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

## 38 Cyhoeddiad(au) y Cadeirydd

Cynigiodd y Cadeirydd y dylid gohirio Eitem 7 ar yr agenda - Trefniadau Sicrwydd Portffolio 'Gateway' Bargen Ddinesig Bae Abertawe i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd y Cadeirydd am gymeradwyaeth i ystyried Eitem 9 ar yr agenda - Achos Busnes Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn dilyn cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

**Penderfynwyd** y dylid cytuno ar y diwygiadau uchod i'r agenda.

## 39 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 40 Achos Busnes Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Cyflwynodd Ian Williams, Rheolwr Datblygu Portffolio (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) Achos Busnes Portffolio'r Fargen Ddinesig wedi'i ddiweddaru, yr oedd angen ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r DU.

Manylodd ar y cefndir a thynnodd sylw at y newidiadau sylweddol a oedd yn cynnwys:

- Gwybodaeth wedi'i diweddaru am gydweddiad strategol y portffolio â pholisïau/strategaethau Cymru, y DU a Rhanbarthol a mentrau cyfredol y sector cyhoeddus, gan gynnwys Cynllun Cyflawni Economaidd De-orllewin Cymru, y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a mentrau'r Gronfa Codi'r Gwastad/Ffyniant Gyffredin
- Yr adran Achos dros Newid wedi'i diweddaru gyda'r blaenoriaethau polisi economaidd rhanbarthol a'r sylfaen dystiolaeth yng Nghynllun Cyflawni

Economaidd De-orllewin Cymru. Nodwyd tueddiadau, anghenion a chyfleoedd cyfredol
- Statws datblygu a chymeradwyo achosion busnes diwygiedig ar gyfer pob rhaglen a phrosiect sydd bellach wedi cael cymeradwyaeth ranbarthol a llywodraeth ac mae Portffolio BDdBA bellach yn cael ei gyflawni’n llawn erbyn hyn
- Gwybodaeth ddiwygiedig am arfarniadau economaidd ar gyfer portffolios, rhaglenni a phrosiectau
- Gwybodaeth am gyllid a buddsoddiadau wedi'i diweddaru gan y rhagwelir mai cyfanswm buddsoddiad portffolio BDdBA fydd £1.241bn erbyn hyn
- Gwybodaeth monitro a gwerthuso wedi'i diweddaru ar gyfer y portffolio, gan gynnwys cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddiweddaru a gwybodaeth gyfredol ar gyfer risgiau, materion, budd-daliadau a monitro ariannol
- Trefniadau sicrwydd annibynnol arfaethedig ar gyfer y portffolio a'r trefniadau ar gyfer datblygu a chymeradwyo Achosion Busnes Llawn
- Cynllun Cyfathrebu a Marchnata ac amserlen wedi'u diweddaru
- Map ffordd cyflawni'r portffolio cyfredol ar gyfer pob rhaglen a phrosiect

Nododd y Pwyllgor fod fersiwn ymgynghoriad drafft o Achos Busnes y Portffolio wedi'i dosbarthu i'r holl Uwch-berchnogion Cyfrifol ac arweinwyr rhaglenni/prosiectau ar 14 Ionawr i gael sylwadau ac adborth. Ystyriwyd yr adborth a dderbyniwyd ac fe'i hymgorfforwyd yn yr achos busnes lle bo hynny'n briodol. Dosbarthwyd yr achos busnes drafft a'r atodiadau i aelodau Bwrdd y Rhaglen, y Cyd-bwyllgor a swyddogion allweddol yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar 18 Chwefror. Cynigiwyd sesiynau briffio ar gynnwys yr achos busnes hefyd i randdeiliaid.

Cafodd yr Achos Busnes ei ystyried a'i gytuno yng nghyfarfod Bwrdd y Rhaglen (Portffolio) ar 1 Mawrth.

Mae'r Achos Busnes yn cynnwys adborth gan randdeiliaid ac, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor, hwn fydd y fersiwn derfynol i'w hanfon at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**Penderfynwyd** bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo’r Achos Busnes Portffolio BDdBA sydd wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad.

## 41 Adroddiad Uchafbwyntiau Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Darparodd Phil Ryder (Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe) adroddiad "Er Gwybodaeth" i roi gwybod i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe am adroddiad Monitro Chwarterol ac Uchafbwyntiau Misol Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

Rhoddodd y diweddaraf i'r Cyd-bwyllgor ar y cynnydd, sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Cyfathrebu a Marchnata;
- Prosiect Morol Doc Penfro;
- Pentre Awel;
- Yr Egin;

- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel;
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau;
- Isadeiledd digidol;
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer;
- Sgiliau a doniau; a
- Champysau BDdBA.

Llongyfarchodd y Pwyllgor drefnwyr y digwyddiad arddangos llwyddiannus diweddar ym Mharc y Scarlets.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Ryder am y diweddariadau.

## 42 Trefniadau Sicrwydd Portffolio 'Gateway' Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** gohirio'r adroddiad i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

## 43 Cytundeb y Cyd-bwyllgor - Atodlen 15

Gofynnodd Jon Burnes (Cyfarwyddwr Portffolio BDdBA) am gymeradwyaeth ar gyfer Cytundeb y Cyd-bwyllgor – Atodlen 15 Rolau a Chyfrifoldebau BDdBA a'r CSRhP.

Nododd y Pwyllgor rolau a chyfrifoldebau Swyddfa Reoli BDdBA, a oedd yn weithred amrywio ofynnol yn ôl cais y Cyd-bwyllgor yn dilyn yr Adolygiad Actica allanol.

**Penderfynwyd** bod Cytundeb y Cyd-bwyllgor – Atodlen 15 fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.56am

**Cadeirydd**